



# Chwaraeon RhCT Astudiaeth Achos

## Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain

Cyflwynodd Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain gais i'n cronfa ysgolion am offer i helpu i sefydlu clwb pêl-rwyd newydd ar ôl ysgol. Roedd y clwb pêl-rwyd wedi'i anelu at bob disgybl, bechgyn a merched fel ei gilydd, a'i nod oedd rhoi'r profiad gorau posibl iddyn nhw a'u hannog nhw i barhau i chwarae yn rheolaidd. Roedd y staff yn gobeithio y byddai'r clwb yn helpu i feithrin cyfeillgarwch, datblygu sgiliau, a chynyddu hyder y rheiny sy'n cymryd rhan ar y cwrt ac oddi ar y cwrt.

Cafodd sesiynau'r clwb eu cynnal bob dydd lau ar ôl ysgol ac roedd y sesiynau'n canolbwyntio ar ddealltwriaeth y disgyblion o'r rheolau, datblygu eu chwarae tactegol a'u techneg saethu. Yn ogystal â dysgu sut i chwarae, mynegodd y disgyblion ddiddordeb mewn dysgu sut i ddyfarnu. Cafodd pob disgybl gyfle i ddyfarnu ac fe wnaeth hyn ei helpu nhw i ddeall y gêm yn well. Fe drefnodd yr athrawon llawer o gemau yn erbyn ysgolion eraill, yn ogystal â thwrnameintiau o fewn yr ysgol.

